Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 312 – 19 Mehefin 2008
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2008.

1. Cam nesaf adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus

Esboniodd y Cadeirydd fod swyddogion yn paratoi ymateb S4C i Ymgynghoriad Ofcom i Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus ac y byddai'r drafft yn cael ei gylchredeg i'r Aelodau cyn gynted ag y bydd yn barod.

2. Goblygiadau Cydgyfeiriant a gwaith y *Convergence Think Tank*

Nododd y Prif Weithredwr ei bod wedi mynychu seminar olaf y *Convergence Think Tank*.

3. Adroddiad y Cadeirydd

Nododd y Cadeirydd fod yr Adroddiad Blynyddol wedi ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Senedd ar 11 Mehefin. Diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu ynghlwm wrth y gwaith o baratoi'r Adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr a Cenwyn Edwards am roi tystiolaeth i Bwyllgor Darlledu'r Cynulliad. Roeddent wedi llwyddo i gyfleu holl negeseuon pwysig S4C, ac roedd y Pwyllgor hefyd wedi gofyn cwestiynau perthnasol.

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod gyda Janet Lewis-Jones yn ddiweddar.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

5. Materion Eraill

- Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu